



Cain Griffiths

Oed: 27

Lleoliad: Mynytho

Enw Busnes: therapiCEGtherapy

✉ cegtherapy@gmail.com



Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?

Daeth cyfle i mi sefydlu busnes fy hun yn sgil derbyn swydd 4 diwrnod yr wythnos, oedd yn gadael un diwrnod gwaith yn rhydd. Cefais fy annog gan deulu a ffrindiau i gynnig gwasanaeth annibynnol i blant lleol yr ardal, gan fod yna fwllch yn y farchnad. Rydw i'n cysidro fy hun yn lwcus o gael teulu a ffrindiau sydd ddim yn ofn mentro eu hunain, ac sydd wastad yn fy annog i fentro tu hwnt i fy parth cysur. Roedd y syniad o fod yn hunan cyflogedig yn un delfrydol, ar ôl treulio pedair blynedd yn gweithio i sefydliadau mawr, lle nad oedd bob trwy bosib gweithio yn hyblyg a chael y cydbwysedd cywir o fywyd gwaith a bywyd personol.

Sut mae Llywyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?

Un o'r prif fanteision o fod yn rhan o'r cynlluniau (Llywyddo'n Lleol ac Amser i Fentro) ydi'r hyder mae'r cynlluniau wedi rhoi i fi pan mae'n dod i hyrwyddo fy musnes. Roedd y cymorth ariannol yn hwb go iawn, yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig; nid oes geiriau i ddisgrifio y gwahaniaeth mae'r cymorth ariannol wedi gneud i'r busnes. Mae'r rhwydwaith o bobl ifanc brwdfrydig rydw i rwan yn rhan ohonof yn hynod gefnogol, ac yn un sydd yn parhau i'r ysbrydoli yn ddyddiol diolch i'r cynlluniau. Rydw'n mawr obeithio gallu parhau i gyd-weithio hefo nhw tu hwnt i gyfnod y cynllun.

Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?

Wrth edrych i'r dyfodol y gobaith ydi gallu parhau i gynnig y gwasanaeth yn lleol, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Byddai parhau i gael cymorth gan gynlluniau tebyg i Llywyddo'n Lleol 2050 ac Amser i Fentro yn ddelfrydol. Rydw i'n gobeithio gallu parhau i gyd weithio hefo'r unigolion ifanc eraill oedd yn rhan o'r cynllun, er mwyn sicrhau fod y momentwm yn parhau, a'r awch i lwyddo yn lleol yn tyfu. Y cam nesaf i mi fydd gwella'r ffordd dwi'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r busnes er mwyn galluogi mi gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth bersn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?

Paid a bod ofn mentro, cer amdani.

@CEGtherapi

